**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNYS

**RHAN 1**

RHAGARWEINIOL

1 Dehongli a chymhwyso
2 Strwythur y Ddeddf

**RHAN 2**

TRWYDDEDU SAFLEOEDD RHEOLEIDDIEDIG

3 Awdurdodau trwyddedu safleoedd
4 Cyflawni swyddogaethau drwy gydlafurio
5 Gofyniad bod rhaid trwyddedu safleoedd rheoleiddiedig
6 Ceisiadau am drwyddedau
7 Rhoi trwydded neu ei gwrthod
8 Profion ynglŷn ag addasrwydd i osod cartrefi symudol
9 Profion ynglŷn ag addasrwydd etc. a threfniadau rheoli boddhaol
10 Amodau'r drwydded
11 Trwyddedau: gofynion cyffredinol a pharhad
12 Amrywio trwyddedau
13 Dirymu trwyddedau
14 Cofrestr o drwyddedau
15 Gweithdrefnau ynghylch trwyddedau
16 Apelau a phenderfyniadau eraill
17 Gorfodi
18 Gwneud gwaith gan yr awdurdod trwyddedu
19 Penodi Rheolwr Interim
20 Arfer pwerau o dan adrannau 13 a 19
21 Pŵer mynediad i swyddogion (etc.) awdurdodau trwyddedu safleoedd
22 Troseddau ynglŷn â thrwyddedu safleoedd rheoleiddiedig
23 Cosbau penodedig
24 Swm y gosb benodedig
25 Canlyniadau eraill gweithredu safle rheoleiddiedig heb ei drwyddedu: gorchmynion ad-dalu
26 Darpariaethau pellach ynghylch gorchmynion ad-dalu

**RHAN 3**

DIWYGIO DEDDF 1983

27 Diwygio Deddf 1983

**RHAN 4**

RHEOLI SAFLEOEDD RHEOLEIDDIEDIG

28 Cymeradwyo codau ymarfer o ran rheoli safleoedd rheoleiddiedig
29 Rheoliadau rheoli safleoedd rheoleiddiedig
30 Cymdeithasau trigolion cymwys

**RHAN 5**

AMRYWIOL

31 Gorchmynion a rheoliadau
32 Dehongli
33 Enw byr, diddymu a chychwyn

Atodlen 1 — Diwygio Deddf Cartrefi Symudol 1983

# Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Bil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu cyfundrefn drwyddedu i safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru ac i wneud rhagor o ddarpariaeth o ran rheoli'r safleoedd hyn a'r cytundebau y gosodir cartrefi symudol arnynt odanynt.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:-**

## RHAN 1

## RHAGARWEINIOL

### 1 Dehongli a chymhwyso

(1) Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr "safle rheoleiddiedig" (yn ddarostyngedig i is-adran (2)) yw safle gwarchodedig yng Nghymru y mae o leiaf un cartref symudol wedi ei osod arno o dan gytundeb y mae Deddf Cartrefi Symudol 1983 (p.34) ("Deddf 1983") yn gymwys iddo, a

(b) mae i "safle gwarchodedig" a "cartref symudol" yr ystyr a roddwyd i "protected site" a "mobile home" gan Ddeddf 1983.

(2) Os gosodwyd y cartref symudol neu'r cartrefi symudol y cyfeirir ato neu atynt yn is-adran (1)(a) ar ran (neu rannau) o safle gwarchodedig, sut bynnag y diffinnir neu yr adnabyddir y rhan honno (neu'r rhannau hynny), caniateir i gais am drwydded o dan Ran 2 gael ei wneud, a chaniateir i drwydded gael ei rhoi, ar gyfer y rhan honno (neu'r rhannau hynny) ac mae darpariaethau'r Ddeddf hon sy'n ymwneud â safleoedd rheoleiddiedig i'w cymhwyso yn gyffredinol at y rhan honno (neu'r rhannau hynny) o safle gwarchodedig.

(3) Mae adran 32 yn gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch dehongli.

### 2 Strwythur y Ddeddf

(1) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn sefydlu cyfundrefn drwyddedu i safleoedd rheoleiddiedig, ac yn gwneud darpariaeth i orfodi'r gyfundrefn honno.

(2) Mae Rhan 3 (a'r Atodlen) yn diwygio Deddf 1983.

(3) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch rheoli safleoedd rheoleiddiedig.

(4) Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau amrywiol.

## RHAN 2

## TRWYDDEDU SAFLEOEDD RHEOLEIDDIEDIG

### 3 Awdurdodau trwyddedu safleoedd

(1) Mae'r Rhan hon yn darparu i safleoedd rheoleiddiedig gael eu trwyddedu gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ("awdurdodau trwyddedu safleoedd").

(2) Mae gan bob awdurdod trwyddedu safleoedd y dyletswyddau cyffredinol a ganlyn—

(a) gwneud unrhyw drefniadau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau—

(i) bod y gyfundrefn drwyddedu y darperir ar ei chyfer gan y Rhan hon yn cael ei rhoi ar waith mewn modd effeithiol yn ei ardal, a

(ii) bod amodau trwyddedau yn cael eu gorfodi mewn modd effeithiol.

(b) sicrhau bod pob cais am drwydded a phob mater arall sydd i'w penderfynu ganddo o dan y Rhan hon yn cael eu penderfynu o fewn amser rhesymol.

### 4 Cyflawni swyddogaethau drwy gydlafurio

(1) Wrth ystyried y ffordd orau i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r awdurdodau trwyddedu safleoedd ystyried (ymhlith pethau eraill) pa mor ddymunol yw arfer eu pwerau cydlafurio.

(2) Yn yr adran hon mae i "pwerau cydlafurio" yr un ystyr (i'r graddau y mae'n gymwys i'r awdurdod trwyddedu safleoedd o dan sylw) ag yn adran 11 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (mccc 2).

### 5 Gofyniad bod rhaid trwyddedu safleoedd rheoleiddiedig

(1) Rhaid i bob safle rheoleiddiedig gael ei drwyddedu o dan y Rhan hon oni bai—

(a) bod hysbysiad esemptio dros dro mewn grym ar ei gyfer o dan adran 11(11),

(b) bod hysbysiad esemptio dros dro i'w drin, o dan adran 11(10), fel pe bai wedi ei roi,

(c) bod y safle yn syrthio o fewn categori o safle sydd wedi ei esemptio drwy orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y paragraff hwn.

(2) Mae trwydded o dan y Rhan hon ("trwydded safle rheoleiddiedig") yn drwydded sy'n awdurdodi gosod ar y safle dim mwy na'r uchafswm o gartrefi symudol a bennir yn y drwydded.

(3) Mae adrannau 6 i 10 yn ymdrin â cheisiadau am drwyddedau safle rheoleiddiedig, rhoi trwyddedau neu eu gwrthod a gosod amodau ar drwyddedau.

(4) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu safleoedd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ceisiadau am drwyddedau yn cael eu gwneud iddo ar gyfer safleoedd rheoleiddiedig yn ei ardal y mae'n ofynnol eu trwyddedu o dan y Rhan hon ond sydd heb eu trwyddedu.

(5) Yn y Rhan hon (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall)—

(a) mae cyfeiriadau at drwydded yn gyfeiriadau at drwydded o dan y Rhan hon, a

(b) mae cyfeiriadau at safle sydd wedi ei drwyddedu (neu sydd heb ei drwyddedu) o dan y Rhan hon yn gyfeiriadau ato fel safle y mae (neu nad oes) trwydded mewn grym ar ei gyfer o dan y Rhan hon.

**6 Ceisiadau am drwyddedau**

(1) Rhaid i gais am drwydded gael ei wneud i'r awdurdod trwyddedu safleoedd y mae'r safle rheoleiddiedig wedi ei leoli yn ei ardal.

(2) Rhaid i'r cais nodi—

(a) y person sy'n berchennog ar y safle rheoleiddiedig (neu, os yw'r safle'n perthyn i fwy nag un person, yr holl bersonau hynny), a

(b) y person a fydd yn rheolwr ar y safle.

(3) I gyd-fynd â'r cais rhaid cael—

(a) datganiad ysgrifenedig safonol sydd i'w roi i feddianwyr y safle o dan adran 1 o Ddeddf 1983,

(b) datganiad o unrhyw reolau (p'un a ydynt yn rhan o'r cytundebau y mae'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato ym mharagraff (a) yn ymwneud ag ef neu beidio) sydd i lywodraethu ymddygiad personau sy'n byw ar y safle rheoleiddiedig neu sy'n ymweld ag ef,

(c) tystiolaeth ynghylch unrhyw ymgynghori a gafwyd—

(i) â meddianwyr cartrefi symudol sydd wedi eu lleoli ar y safle,

(ii) â darpar feddianwyr cartrefi symudol sydd i'w lleoli ar y safle,

(iii) â chynrychiolwyr y personau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) a (ii),

ynghylch telerau'r datganiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) a (b).

(4) Rhaid i'r cais gael ei wneud yn unol ag unrhyw ofynion y bydd yr awdurdod trwyddedu yn eu pennu.

(5) Wrth bennu gofynion o dan is-adran (4) rhaid i'r awdurdod (yn ddarostyngedig i is-adran (7)) ei gwneud yn ofynnol i ddigon o wybodaeth gael ei darparu gyda'r cais i'w alluogi i ystyried y materion y cyfeirir atynt yn adran 7(3)(b), adran 7(3)(d) ac adran 9(5)(b) (p'un a yw personau penodol yn bersonau addas a phriodol).

(6) Yn benodol, caiff yr awdurdod ei gwneud yn ofynnol i ffi a bennir gan yr awdurdod gael ei thalu gyda'r cais.

(7) Mae pŵer yr awdurdod i bennu gofynion o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (8).

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch gwneud ceisiadau o dan yr adran hon.

(9) Rhaid i'r rheoliadau hyn, yn benodol—

(a) pennu ym mha fodd a ffurf y mae ceisiadau i gael eu gwneud,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd roi copïau o'r cais, neu wybodaeth amdano, i bersonau penodol,

(c) pennu'r wybodaeth sydd i'w chyflenwi mewn cysylltiad â cheisiadau,

(d) pennu uchafswm y ffioedd y caniateir i awdurdod eu pennu at ddibenion is-adran (6) (boed drwy bennu symiau ynteu dulliau i gyfrifo symiau),

(e) pennu unrhyw achosion lle nad oes angen ffioedd neu lle mae ffioedd i gael eu had-dalu.

(10) Wrth bennu ffioedd at ddibenion is-adran (6), caiff yr awdurdod (yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (8)) gymryd i ystyriaeth yr holl gostau a ysgwyddir gan yr awdurdod wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

**7 Rhoi trwydded neu ei gwrthod**

(1) Pan fo cais yn cael ei wneud i awdurdod trwyddedu safleoedd o dan adran 6, rhaid i'r awdurdod naill ai—

(a) rhoi trwydded yn unol ag is-adran (2), neu

(b) gwrthod rhoi trwydded.

(2) Os yw'r awdurdod trwyddedu wedi ei fodloni ynglŷn â'r materion a grybwyllir yn is-adran (3), caiff roi trwydded i'r person sy'n berchennog ar y safle (neu i'r personau sy'n berchnogion arno) ("deiliad y drwydded").

(3) Dyma'r materion—

(a) bod y safle'n rhesymol addas i osod dim mwy na'r uchafswm o gartrefi symudol a grybwyllir yn is-adran (5) neu y gellir peri ei fod yn addas felly drwy osod amodau o dan adran 10,

(b) bod deiliad y drwydded yn berson addas a phriodol i fod yn berchennog ar safle rheoleiddiedig,

(c) mai naill ai—

(i) y person sydd â rheolaeth dros y safle, neu

(ii) person sy'n asiant neu'n gyflogai i'r person sydd â rheolaeth dros y safle,

yw rheolwr arfaethedig y safle,

(d) bod rheolwr arfaethedig y safle yn berson addas a phriodol i fod yn rheolwr ar y safle, ac

(e) bod trefniadau rheoli arfaethedig y safle yn foddhaol fel arall.

(4) Yn is-adran (3)(c) ystyr "y person sydd â rheolaeth" dros safle yw'r person sy'n cael ffioedd y llain neu'r taliadau cyfnodol eraill sy'n cael eu rhoi gan feddianwyr y cartrefi symudol sydd wedi eu gosod ar y safle, boed ar ran y person hwnnw ei hun ynteu fel asiant neu ymddiriedolwr i berson arall, neu a fyddai'n gwneud hynny pe bai unrhyw gartrefi symudol wedi eu gosod felly.

(5) Uchafswm y cartrefi symudol y cyfeirir ato yn is-adran (3)(a) yw—

(a) yr uchafswm a bennir yn y cais, neu

(b) rhyw uchafswm arall y penderfynir arno gan yr awdurdod.

(6) Mae adrannau 8 a 9 yn gymwys at ddibenion yr adran hon.

**8 Profion ynglŷn ag addasrwydd i osod cartrefi symudol**

(1) Ni chaiff yr awdurdod trwyddedu safleoedd fod yn fodlon at ddibenion adran 7(3)(a) fod y safle rheoleiddiedig yn rhesymol addas i osod uchafswm penodol o gartrefi symudol os yw o'r farn bod y safle yn methu bodloni safonau rhagnodedig ynglŷn â gosod y nifer hwnnw o gartrefi symudol.

(2) Ond caiff yr awdurdod benderfynu nad yw'r safle'n rhesymol addas i osod uchafswm penodol o gartrefi symudol hyd yn oed os yw'r safle yn bodloni safonau rhagnodedig ynglŷn â gosod y nifer hwnnw o gartrefi symudol.

(3) Yn yr adran hon ystyr "safonau rhagnodedig" yw safonau a ragnodir drwy reoliadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu gwneud.

**9 Profion ynglŷn ag addasrwydd etc. a threfniadau rheoli boddhaol**

(1) Wrth benderfynu a yw person ("P")—

(a) at ddibenion adran 7(3)(b) neu (d), yn berson addas a phriodol i fod yn berchennog neu (yn ôl fel y digwydd) yn rheolwr ar safle rheoleiddiedig, neu

(b) at ddibenion is-adran (5)(b) o'r adran hon, yn berson addas a phriodol i fod yn rhan o reoli safle rheoleiddiedig,

rhaid i'r awdurdod trwyddedu safleoedd roi sylw (ymhlith pethau eraill) i unrhyw dystiolaeth o fewn is-adran (2) neu (3).

(2) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod P—

(a) wedi cyflawni unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, neu â thrais neu gyffuriau, neu unrhyw drosedd sydd wedi ei restru yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42) (troseddau sy'n dod o dan ofynion ynglŷn â'u hysbysu),

(b) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchodedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15) wrth gynnal unrhyw fusnes, neu mewn cysylltiad â'i gynnal,

(c) wedi torri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â chartrefi symudol, tai, landlord a thenant neu gynllunio gwlad a thref, neu

(d) wedi gweithredu heblaw yn unol ag unrhyw god ymarfer sy'n gymwys ac a gymeradwywyd o dan adran 28 neu unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 29.

(3) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n dangos bod unrhyw berson sydd neu a fu gynt yn gysylltiedig â P (ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw rai o'r pethau a nodwyd yn is-adrannau (2)(a) i (d), a

(b) os yw'n ymddangos i'r awdurdod fod y dystiolaeth yn berthnasol i'r cwestiwn a yw P yn berson addas a phriodol i fod yn berchennog ar safle rheoleiddiedig, yn rheolwr arno neu'n rhan o'i reoli.

(4) Wrth benderfynu at ddibenion adran 7(3)(e) a yw trefniadau rheoli arfaethedig y safle yn foddhaol fel arall, rhaid i'r awdurdod roi sylw (ymhlith pethau eraill) i'r ystyriaethau a grybwyllir yn is-adran (5).

(5) Dyma'r ystyriaethau—

(a) a oes gan unrhyw berson y bwriedir ei gynnwys yn rhan o reoli'r safle lefel ddigonol o gymhwysedd i gael ei gynnwys felly,

(b) a yw unrhyw berson y bwriedir ei gynnwys yn rhan o reoli'r safle (heblaw'r rheolwr) yn berson addas a phriodol i gael ei gynnwys felly, ac

(c) a yw unrhyw strwythurau rheoli a threfniadau ariannol arfaethedig yn addas.

(6) Mae unrhyw gyfeiriad yn adran 7(3)(c)(i) neu (ii) neu is-adran (3)(b) uchod at berson sy'n berchennog ar safle neu sydd â rheolaeth dros y safle, neu at berson o unrhyw ddisgrifiad arall, yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n bwriadu bod yn berchennog ar y safle neu â rheolaeth dros y safle, neu sy'n bwriadu bod yn berson o'r disgrifiad hwnnw, ar yr adeg y daw'r drwydded i rym.

**10 Amodau'r drwydded**

(1) Rhaid i drwydded gynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded—

(a) cadw at delerau unrhyw gytundeb y mae adran 1 o Ddeddf 1983 yn ymwneud ag ef,

(b) gorfodi unrhyw reolau o'r math y cyfeirir atynt yn adran 6(3)(b) uchod,

(c) sicrhau bod copïau—

(i) o'r drwydded,

(ii) o'r datganiad ysgrifenedig safonol y cyfeirir ato yn adran 6(3)(a), a

(iii) o'r rheolau y cyfeirir atynt yn adran 6(3)(b)

wedi eu dangos yn amlwg bob amser ar fan ar y safle sydd ar gael yn hwylus i'r meddianwyr,

(d) peidio â chyflawni unrhyw weithred (na pheri na chaniatáu i neb arall gyflawni unrhyw weithred) a waharddwyd, o ran y safle, gan adran 3 o Ddeddf Safleoedd Carafannau 1968 (p.52) (amddiffyn meddianwyr rhag eu troi allan a'u haflonyddu),

(e) rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu safleoedd ar unwaith am unrhyw newid ynglŷn â'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y cais a arweiniodd at roi'r drwydded neu a ddarparwyd gydag ef.

(2) Caiff trwydded gynnwys unrhyw amodau pellach sy'n briodol ym marn yr awdurdod i reoleiddio'r modd y mae'r safle rheoleiddiedig o dan sylw yn cael ei reoli, ei ddefnyddio a'i feddiannu.

(3) Caiff yr amodau hyn gynnwys, yn benodol, (cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau)—

(a) amodau sy'n gosod cyfyngiadau neu waharddiadau ar ddefnyddio neu feddiannu rhannau penodol o'r safle gan bersonau sy'n ei feddiannu;

(b) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamau rhesymol ac ymarferol gael eu cymryd i atal neu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bersonau sy'n meddiannu'r safle neu sy'n ymweld ag ef;

(c) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfleusterau ac offer gael eu darparu ar y safle er mwyn bodloni safonau a ragnodir gan reoliadau a wneir o dan adran 29;

(d) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfleusterau a'r offer hyn gael eu cadw mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn;

(e) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol, yn achos unrhyw waith sy'n angenrheidiol er mwyn i unrhyw gyfleusterau neu offer o'r fath gael eu darparu neu er mwyn bodloni unrhyw safonau o'r fath, i'r gwaith gael ei wneud o fewn unrhyw gyfnod neu gyfnodau a bennir yn y drwydded neu y penderfynir arno neu arnynt odani;

(f) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog neu reolwr y safle ddilyn cyrsiau hyfforddi ynghylch unrhyw god ymarfer sy'n gymwys ac a gymeradwywyd o dan adran 28.

(4) Ni chaiff trwydded gynnwys amodau sy'n gosod cyfyngiadau neu rwymedigaethau ar berson penodol heblaw'r perchennog oni bai bod y person hwnnw wedi cydsynio i'r cyfyngiadau neu'r rhwymedigaethau gael eu gosod.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru o dro i dro roi canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys amodau i'w cynnwys mewn trwyddedau a rhaid i'r awdurdodau roi sylw i'r canllawiau hynny.

**11 Trwyddedau: gofynion cyffredinol a pharhad**

(1) Ni chaiff trwydded ymwneud â mwy nag un safle rheoleiddiedig.

(2) Mewn atodiad i'r drwydded rhaid cael—

(a) datganiad ysgrifenedig safonol i'w roi i feddianwyr y safle o dan adran 1 o Ddeddf 1983, a

(b) datganiad o unrhyw reolau (p'un a ydynt yn rhan o'r cytundeb y mae'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato ym mharagraff (a) yn ymwneud ag ef neu beidio) sydd i lywodraethu ymddygiad y personau sy'n byw ar y safle rheoleiddiedig neu'n ymweld ag ef.

(3) Mae'r dogfennau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) yn rhan o'r drwydded.

(4) Caniateir i drwydded gael ei rhoi cyn yr adeg y mae ei hangen yn rhinwedd y Rhan hon ond, os felly, ni chaniateir i'r drwydded ddod i rym tan yr adeg honno.

(5) Mae trwydded—

(a) yn dod i rym ar yr adeg a bennir neu y penderfynir arni at y diben hwnnw yn y drwydded neu o dani, a

(b) onid yw wedi ei therfynu ynghynt gan is-adran (9) neu wedi ei dirymu o dan adran 13, mae'n parhau mewn grym am y cyfnod a bennir neu y penderfynir arno felly.

(6) Rhaid i'r cyfnod hwnnw beidio â dod i ben fwy na 5 mlynedd—

(a) ar ôl y dyddiad y cafodd y drwydded ei rhoi, neu

(b) os cafodd y drwydded ei rhoi fel y crybwyllwyd yn is-adran (4), ar ôl y dyddiad y daw'r drwydded i rym.

(7) Mae is-adran (5)(b) yn gymwys hyd yn oed os bydd y safle o dan sylw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw, yn peidio â bod yn un y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo.

(8) Ni chaniateir i drwydded gael ei throsglwyddo i berson arall.

(9) Os bydd—

(a) deiliad y drwydded yn marw tra bo'r drwydded mewn grym,

(b) unrhyw berson nad oedd yn berchennog, neu'n un o'r perchnogion, ar y safle ar yr adeg y rhoddwyd y drwydded yn dod yn berchennog (neu'n un o'r perchnogion) ar y safle,

mae'r drwydded yn peidio â bod mewn grym.

(10) Er hynny, yn ystod y cyfnod o 3 mis sy'n dechrau—

(a) â dyddiad marwolaeth deiliad y drwydded, neu

(b) os yw is-adran (9)(b) yn gymwys, â'r dyddiad y daw'r person o dan sylw yn berchennog (neu'n un o'r perchnogion) ar y safle,

mae'r safle i'w drin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai hysbysiad esemptio dros dro wedi ei gyflwyno ar y dyddiad hwnnw o ran y safle o dan is-adran (11).

(11) Ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw ("y cyfnod cychwynnol") neu unrhyw gyfnod dilynol pan fydd hysbysiad a roddir o dan yr is-adran hon mewn grym ("cyfnod esemptio dros dro") os bydd—

(a) cynrychiolwyr personol deiliad y drwydded (os yw is-adran (9)(a) yn gymwys, neu

(b) perchennog y safle (os yw is-adran (9)(b) yn gymwys),

yn gwneud cais i'r awdurdod trwyddedu safleoedd wneud hynny, caiff yr awdurdod trwyddedu gyflwyno i'r person a wnaeth y cais hysbysiad ("hysbysiad esemptio dros dro") sydd, yn ystod y cyfnod o 3 mis ar ôl y dyddiad y daw'r cyfnod cychwynnol (neu'r cyfnod esemptio dros dro blaenorol) i ben, yn esemptio'r safle rheoleiddiedig rhag y gofyniad bod rhaid ei drwyddedu.

(12) Os bydd yr awdurdod trwyddedu yn penderfynu peidio â chyflwyno hysbysiad esemptio dros dro mewn ymateb i gais o dan is-adran (11), rhaid iddo yn ddi-oed gyflwyno i'r person a wnaeth y cais hysbysiad yn rhoi gwybod i'r person hwnnw—

(a) am y penderfyniad, a

(b) am y rhesymau drosto ac ar ba ddyddiad y cafodd ei wneud.

**12 Amrywio trwyddedau**

(1) Caiff yr awdurdod trwyddedu safleoedd amrywio trwydded—

(a) os yw'n gwneud hynny gyda chytundeb deiliad trwydded y safle y mae'n ymwneud ag ef, neu

(b) os yw o'r farn bod newid amgylchiadau wedi bod (gan gynnwys darganfod unrhyw wybodaeth newydd) ers pan gafodd y drwydded ei rhoi.

(2) Ni chaniateir i'r awdurdod amrywio trwydded drwy amrywio telerau'r ddogfen y cyfeirir ati yn adran 11(2)(a) oni bai bod yr amrywiad yn nhelerau'r cytundeb neu'r cytundebau y mae'n ymwneud ag ef neu â hwy wedi ei gytuno neu wedi ei gymeradwyo o dan ddarpariaethau Deddf 1983.

(3) Ni chaniateir i'r awdurdod amrywio trwydded drwy amrywio telerau'r ddogfen y cyfeirir ati yn adran 11(2)(b) (i'r graddau nad yw'r rheolau o dan sylw yn rhan o'r cytundeb neu'r cytundebau y cyfeirir ato neu atynt yn adran 6(3)(a)) oni bai—

(a) yr ymgynghorwyd ynghylch telerau'r amrywiad arfaethedig—

(i) â holl feddianwyr y cartrefi symudol ar y safle rheoleiddiedig, a

(ii) ag unrhyw gymdeithas drigolion gymwys o ran y safle, a

(b) ei bod yn ymddangos i'r awdurdod fod y mwyafrif o'r meddianwyr yn cytuno â'r amrywiad.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan fo'r awdurdod—

(a) yn ystyried a ddylid amrywio trwydded o dan is-adran (1)(b); a

(b) yn ystyried pa nifer o gartrefi symudol sy'n briodol fel yr uchafswm i'w awdurdodi i feddiannu'r safle rheoleiddiedig y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef.

(5) Rhaid i'r awdurdod, yn ddarostyngedig i is-adran (4), gymhwyso'r un safonau at yr amgylchiadau sy'n bodoli ar yr adeg y mae'n ystyried a ddylid amrywio'r drwydded ag a oedd yn gymwys ar yr adeg y cafodd ei rhoi.

(6) Os yw'r safonau—

(a) a ragnodir o dan adran 8, a

(b) a oedd yn gymwys ar yr adeg y cafodd y drwydded ei rhoi,

wedi eu diwygio wedyn neu wedi eu disodli gan ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan yr adran honno, caiff yr awdurdod gymhwyso'r safonau newydd.

(7) Mae amrywiad a wneir gyda chytundeb deiliad y drwydded yn dod yn effeithiol ar yr adeg y mae'n cael ei wneud.

(8) Fel arall, nid yw amrywiad yn dod i rym nes i'r cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn yr amrywiad ddod i ben heb i apêl gael ei gwneud neu pan gaiff y penderfyniad i amrywio ei gadarnhau ar ôl apêl.

(9) Mae'r pŵer i amrywio trwydded o dan yr adran hon yn arferadwy gan yr awdurdod trwyddedu naill ai—

(a) pan wneir cais gan ddeiliad y drwydded neu berson perthnasol, neu

(b) ar ysgogiad yr awdurdod trwyddedu ei hun.

**13 Dirymu trwyddedau**

(1) Caiff yr awdurdod trwyddedu safleoedd ddirymu trwydded—

(a) os yw'n gwneud hynny gyda chytundeb deiliad y drwydded;

(b) yn unrhyw rai o'r achosion a grybwyllir yn is-adran (2) (amgylchiadau sy'n ymwneud â deiliaid trwydded neu bersonau eraill);

(c) yn unrhyw rai o'r achosion a grybwyllir yn is-adran (3) (amgylchiadau sy'n ymwneud â'r safle rheoleiddiedig o dan sylw); neu

(d) o dan unrhyw amgylchiadau eraill a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r achosion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b) fel a ganlyn—

(a) pan fo'r awdurdod trwyddedu o'r farn bod deiliad y drwydded neu unrhyw berson arall wedi torri un o amodau'r drwydded mewn modd difrifol neu wedi torri amod o'r fath fwy nag unwaith;

(b) pan na fo'r awdurdod trwyddedu yn credu mwyach fod deiliad y drwydded yn berson addas a phriodol i fod yn berchennog ar safle rheoleiddiedig; ac

(c) pan na fo'r awdurdod trwyddedu yn credu mwyach fod rheolaeth y safle yn cael ei chyflawni gan bersonau sydd ym mhob achos yn bersonau addas a phriodol i gymryd rhan wrth ei reoli, ac

mae adran 9(1) yn gymwys o ran paragraff (b) neu (c) uchod fel y mae'n gymwys o ran adran 7(3)(b) neu (d).

(3) Mae'r achosion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(c) fel a ganlyn—

(a) pan fo'r safle y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef yn peidio â bod yn safle rheoleiddiedig y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo; a

(b) pan fo'r awdurdod trwyddedu yn credu ar unrhyw adeg y byddai, pe bai'r drwydded yn dod i ben y pryd hwnnw, yn gwrthod rhoi trwydded newydd i ddeiliad y drwydded ar delerau tebyg mewn perthynas ag ef, am reswm penodol yn ymwneud â'r safle rheoleiddiedig.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan fo'r awdurdod yn ystyried a ddylid dirymu trwydded yn rhinwedd is-adran (3)(b) ar y sail nad yw'r safle yn rhesymol addas i osod yr uchafswm o gartrefi symudol a bennir yn y drwydded.

(5) Yn ddarostyngedig i is-adran (6), rhaid i'r awdurdod gymhwyso'r un safonau at yr amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd wrth ystyried a ddylid dirymu'r drwydded ag a oedd yn gymwys ar yr adeg y cafodd ei rhoi.

(6) Os yw'r safonau—

(a) a ragnodir o dan adran 8; a

(b) a oedd yn gymwys ar yr adeg y cafodd y drwydded ei rhoi,

wedi eu diwygio wedyn neu wedi eu disodli gan ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan yr adran honno, caiff yr awdurdod gymhwyso'r safonau newydd.

(7) Mae dirymiad a wneir gyda chytundeb deiliad y drwydded yn dod yn effeithiol ar yr adeg y mae'n cael ei wneud.

(8) Fel arall, nid yw dirymiad yn dod i rym nes i'r cyfnod ar gyfer apelio ddod i ben heb i apêl gael ei gwneud neu nes y caiff y penderfyniad i amrywio ei gadarnhau ar ôl apêl.

(9) Mae'r pŵer i ddirymu trwydded o dan yr adran hon yn arferadwy gan yr awdurdod trwyddedu naill ai—

(a) pan wneir cais gan y perchennog, neu

(b) ar ysgogiad yr awdurdod trwyddedu ei hun.

**14 Cofrestr o drwyddedau**

(1) Rhaid i awdurdod trwyddedu safleoedd gadw cofrestr o drwyddedau safleoedd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â safleoedd yn ei ardal.

(2) Rhaid i'r gofrestr—

(a) cynnwys copïau o'r holl drwyddedau sydd mewn grym ar y pryd, a

(b) bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod yn ystod oriau swyddfa arferol.

**15 Gweithdrefnau ynghylch trwyddedau**

Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynglŷn â'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan yr awdurdodau trwyddedu safleoedd o ran—

(a) rhoi trwyddedau neu eu gwrthod,

(b) amrywio trwyddedau,

(c) dirymu trwyddedau.

**16 Apelau a phenderfyniadau eraill**

(1) Caiff perchnogion (oni bai eu bod wedi cytuno â'r penderfyniad o dan sylw) apelio i'r tribiwnlys ynglŷn â phenderfyniadau awdurdodau trwyddedu ynghylch—

(a) gwrthod trwyddedau,

(b) uchafswm y cartrefi symudol a bennwyd mewn trwydded,

(c) parhad trwyddedau,

(d) amodau a gynhwyswyd mewn trwyddedau (heblaw'r rhai y mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu eu gosod o dan adran 10(1)),

(e) dirymu trwyddedau,

(f) amrywio trwyddedau,

(g) gwrthod cyflwyno hysbysiadau esemptio dros dro,

(h) penodi rheolwyr interim.

(2) Mae apelau o dan yr adran hon—

(a) i fod ar ffurf ail-wrandawiad, ond

(b) yn gorfod cael eu penderfynu drwy gyfeirio at ddarpariaethau a chodau ymddygiad statudol sydd mewn grym ar yr adeg y penderfynir ar yr apêl, ac

(c) yn gallu cael eu penderfynu drwy roi sylw i faterion nad oedd yr awdurdod trwyddedu yn ymwybodol ohonynt.

(3) Mae'r tribiwnlys—

(a) yn cael cadarnhau neu wrth-droi penderfyniad yr awdurdod, a

(b) os bydd yn gwrth-droi'r penderfyniad, yn gorfod cyfarwyddo'r awdurdod i gymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol i roi ei effaith i benderfyniad y tribiwnlys.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynglŷn â'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn (gan gynnwys y cyfnodau y mae'n rhaid apelio o'u mewn) o ran apelau o dan yr adran hon a phenderfyniadau o dan adran 18(4).

**17 Gorfodi**

(1) Y trefniadau y mae'r awdurdod trwyddedu safleoedd yn credu eu bod yn briodol yw'r trefniadau y mae'n rhaid iddo eu gwneud er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol o dan adran 3(2)(a)(ii) (amodau trwyddedau yn cael eu gorfodi mewn modd effeithiol), yn ddarostyngedig i is-adran (2).

(2) Wrth ystyried pa drefniadau y mae'n credu eu bod yn briodol, rhaid i awdurdod roi sylw i unrhyw ganllawiau ysgrifenedig a roddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

**18 Gwneud gwaith gan yr awdurdod trwyddedu**

(1) Os yw'n ymddangos i'r awdurdod trwyddedu safleoedd fod angen gwneud unrhyw waith ar safle rheoleiddiedig er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw amod a gynhwyswyd yn y drwydded ynglŷn â'r safle hwnnw caiff yr awdurdod gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i ddeiliad y drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded gyflawni'r gwaith o dan sylw, er boddhad yr awdurdod, o fewn unrhyw amser rhesymol a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Os na fydd y gwaith y mae hysbysiad a gyflwynir o dan is-adran (1) yn gofyn amdano wedi ei gwblhau o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, caiff yr awdurdod trwyddedu fynd i'r safle a chyflawni (neu gwblhau) y gwaith hwnnw.

(3) Yn ddarostyngedig i is-adran (4), caiff yr awdurdod adennill oddi ar ddeiliad y drwydded unrhyw gostau (gan gynnwys unrhyw gostau gweinyddol a phroffesiynol) y mae'n rhesymol iddo eu hysgwyddo wrth wneud y canlynol neu mewn cysylltiad â hynny—

(a) paratoi a chyflwyno hysbysiad o dan is-adran (1), a

(b) cyflawni (neu gwblhau) unrhyw waith yn unol ag is-adran (2).

(4) Caniateir i unrhyw gwestiwn sy'n codi ynghylch y canlynol—

(a) graddfa unrhyw waith y mae ei angen i sicrhau y cydymffurfir â'r amod o dan sylw,

(b) pa mor rhesymol yw'r amser ar gyfer cwblhau'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad,

(c) a oedd y gwaith wedi ei gwblhau mewn gwirionedd cyn i'r awdurdod trwyddedu geisio arfer ei bwerau o dan is-adran (2),

(d) y costau a ysgwyddwyd yn rhesymol gan yr awdurdod trwyddedu wrth wneud y canlynol neu mewn cysylltiad â hynny—

(i) paratoi a chyflwyno hysbysiad o dan is-adran (1), a

(ii) cyflawni (neu gwblhau) unrhyw waith yn unol ag is-adran (2),

gael ei gyfeirio gan yr awdurdod neu gan ddeiliad y drwydded at y tribiwnlys i gael ei benderfynu yn unol ag adran 16.

**19 Penodi Rheolwr Interim**

(1) Os bydd unrhyw rai o'r achosion a grybwyllir yn adran 13(2) yn gymwys, caiff yr awdurdod trwyddedu safleoedd, yn hytrach na dirymu'r drwydded, benodi rheolwr interim i'r safle rheoleiddiedig.

(2) Rhaid penodi ar y telerau a'r amodau (gan gynnwys ynglŷn â thâl a threuliau) a bennir yn y penodiad neu a benderfynir yn unol â'r penodiad.

(3) Mae gan y rheolwr interim—

(a) unrhyw bŵer a bennir yn y penodiad, a

(b) unrhyw bŵer arall o ran rheoli'r safle y mae ar y rheolwr interim ei angen at y dibenion a bennir yn y penodiad (gan gynnwys y pŵer i wneud cytundebau ac i gymryd camau eraill ar ran deiliad y drwydded).

(4) Caiff yr awdurdod roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i'r rheolwr interim.

(5) Caiff yr awdurdod dynnu unrhyw gyfarwyddiadau a roddir yn ôl neu eu diwygio.

(6) Mae penodiad o dan yr adran hon yn dod i ben adeg y cynharaf o'r canlynol—

(a) pan fo'r drwydded yn peidio â bod mewn grym yn unol ag adran 11(5)(b),

(b) terfynu'r drwydded o dan adran 11(9) (oni bai bod adran 11(10) neu adran 11(11) yn gymwys,

(c) dirymu'r drwydded, neu

(d) dyddiad a bennir yn y penodiad.

(7) Os bydd person yn peidio â bod yn rheolwr interim cyn i'r penodiad ddod i ben, caiff yr awdurdod benodi rheolwr interim newydd yn lle'r person hwnnw.

(8) Caniateir i dâl a threuliau'r rheolwr interim gael eu tynnu gan y rheolwr interim o unrhyw incwm y mae gan ddeiliad y drwydded hawl i'w gael ar gyfer y safle, ond os nad yw'r incwm hwnnw'n ddigonol rhaid i unrhyw falans gael ei dalu gan yr awdurdod.

(9) Caniateir i unrhyw symiau a delir gan yr awdurdod o dan is-adran (8) gael eu hadennill gan yr awdurdod trwyddedu oddi ar ddeiliad y drwydded.

**20 Arfer pwerau o dan adrannau 13 a 19**

(1) Os bydd cymdeithas sy'n gymdeithas drigolion gymwys o ran safle rheoleiddiedig yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i awdurdod trwyddedu safleoedd ystyried—

(a) a oes unrhyw rai o'r achosion a grybwyllir yn adran 13(2) yn gymwys, a

(b) os oes, a ddylai arfer ei bwerau o dan adrannau 13 neu 19.

(2) Nid yw is-adran (1) yn effeithio ar ddisgresiwn yr awdurdod i arfer ei bwerau o dan adrannau 13 neu 19 ar ei ysgogiad ei hun.

**21 Pŵer mynediad i swyddogion (etc.) awdurdodau trwyddedu safleoedd**

(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r adran hon, caiff unrhyw swyddog neu asiant awdurdodedig i awdurdod trwyddedu safleoedd, wedi iddo ddangos, os gofynnir iddo wneud hynny, ryw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos bod y person wedi ei awdurdoi felly, ar bob adeg resymol fynd i unrhyw safle rheoleiddiedig, neu dir y mae gan yr awdurdod sail resymol dros gredu ei fod yn safle rheoleiddiedig er mwyn—

(a) galluogi'r awdurdod trwyddedu i benderfynu pa amodau a ddylai gael eu cyplysu â thrwydded o dan y Rhan hon,

(b) darganfod a oes unrhyw rai o ddarpariaethau'r Rhan hon o'r Ddeddf hon neu o drwydded a roddwyd o dan y Rhan hon yn cael neu wedi cael eu torri ar y tir neu mewn cysylltiad ag ef,

(c) darganfod a oes amgylchiadau'n bodoli a fyddai'n cyfiawnhau unrhyw gamau gan yr awdurdod trwyddedu o dan y Rhan hon, gan gynnwys cyflawni gwaith o dan adran 18,

(d) cymryd unrhyw gamau o'r fath,

ar yr amod na chaniateir mynnu mynediad i unrhyw dir fel mater o hawl oni bai bod hysbysiad o'r bwriad i fynd yno wedi ei roi i'r perchennog neu'r perchennog tybiedig bedair awr ar hugain ymlaen llaw.

(2) Os dangosir er boddhad ynad heddwch—

(a) bod mynediad i unrhyw dir wedi ei wrthod, neu y deellir y caiff ei wrthod, neu fod perchennog y tir yn absennol dros dro a bod yr achos yn achos brys, neu y byddai cais am fynediad yn mynd yn groes i amcan mynd i'r tir; a

(b) bod sail resymol dros fynd i'r tir at unrhyw ddiben a grybwyllir yn is-adran (1) o'r adran hon;

caiff yr ynad drwy warant awdurdodi'r awdurdod drwy gyfrwng unrhyw swyddog neu asiant awdurdodedig i fynd i'r tir, gan ddefnyddio grym os bydd ei angen.

(3) Ni chaniateir rhoi gwarant oni bai bod yr ynad wedi ei fodloni naill ai bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am y warant wedi ei roi i'r perchennog, neu fod y perchennog yn absennol dros dro a bod yr achos yn achos brys, neu y byddai rhoi hysbysiad o'r fath yn mynd yn groes i amcan mynd i'r tir.

(4) Caiff swyddog neu asiant awdurdodedig sy'n mynd i unrhyw dir yn rhinwedd yr adran hon, neu yn rhinwedd gwarant a roddir odani, fynd ag unrhyw bersonau eraill y mae eu hangen gydag ef.

(5) Mae pob gwarant a roddir o dan yr adran hon i barhau mewn grym nes bod y diben y mae angen mynediad ar ei gyfer wedi ei fodloni.

(6) Bydd person sydd yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu'r adran hon, neu warant o dan yr adran hon, yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

**22 Troseddau ynglŷn â thrwyddedu safleoedd rheoleiddiedig**

(1) Mae person sydd—

(a) yn berchennog ar safle rheoleiddiedig, neu

(b) â gofal neu reolaeth dros safle o'r fath,

yn cyflawni trosedd os yw'n ofynnol i'r safle gael ei drwyddedu o dan y Rhan hon ond ei fod heb ei drwyddedu.

(2) Mae person sydd—

(a) yn ddeiliad y drwydded o ran safle rheoleiddiedig, neu

(b) â gofal neu reolaeth dros safle o'r fath,

yn cyflawni trosedd os bydd y person hwnnw yn fwriadol yn caniatáu i gartref symudol gael ei osod ar y safle, a bod gosod y cartref symudol hwnnw ar y safle yn arwain at osod mwy o gartrefi symudol ar y safle nag a awdurdodwyd gan y drwydded.

(3) Mae person sydd—

(a) yn ddeiliad y drwydded o ran safle rheoleiddiedig,

(b) â gofal neu reolaeth dros safle o'r fath,

(c) yn berson y gosodwyd cyfyngiadau neu rwymedigaethau arno o dan y drwydded yn unol ag adran 10(4), neu

(d) yn gyflogai neu'n asiant i unrhyw rai o'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a), (b) ac (c),

yn cyflawni trosedd os bydd y person hwnnw yn fwriadol yn peri neu'n caniatáu unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw rai o amodau'r drwydded.

(4) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan is-adrannau (1), (2) neu (3) mae'n amddiffyniad bod gan y person o dan sylw esgus rhesymol—

(a) dros fod â gofal neu reolaeth dros y safle o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (1),

(b) dros ganiatáu i'r cartref symudol gael ei leoli ar y safle, neu

(c) dros beri neu ganiatáu'r methiant i gydymffurfio â'r amod.

(5) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon yn agored—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy.

**23 Cosbau penodedig**

(1) Os oes gan swyddog awdurdodedig i awdurdod trwyddedu safleoedd reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 22(3) caiff y swyddog roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person hwnnw yn cynnig cyfle i gael ei ryddhau rhag unrhyw atebolrwydd am gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig.

(2) Mae cosb benodedig o dan yr adran hon yn daladwy i'r awdurdod trwyddedu y rhoddodd ei swyddog yr hysbysiad.

(3) Pan fo person yn cael hysbysiad o dan yr adran hon ynglŷn â throsedd—

(a) ni chaniateir dwyn achos ynglŷn â'r drosedd cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad, a

(b) ni chaniateir collfarnu'r person am y drosedd os bydd y person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon roi unrhyw fanylion am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd y mae eu hangen i esbonio pam y mae trosedd wedi digwydd.

(5) Rhaid hefyd i hysbysiad o dan yr adran hon ddatgan—

(a) y cyfnod o dan is-adran (3) pryd na fydd achos ynglŷn â'r drosedd yn cael ei ddwyn,

(b) swm y gosb benodedig,

(c) y person y gellir talu'r gosb benodedig iddo a'r cyfeiriad y gellir ei dalu ynddo.

(6) Heb ragfarnu taliad drwy unrhyw ddull arall, caniateir talu'r gosb benodedig drwy ei ragdalu a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) at y person y cyfeirir ato, yn y cyfeiriad a ddarperir, yn yr hysbysiad.

(7) Os anfonir llythyr, rhaid barnu bod y taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw yn cael ei ddosbarthu yng nghwrs arferol y post.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau bennu ffurf hysbysiad o dan yr adran hon.

(9) Mewn unrhyw achos mae tystysgrif—

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi ar ran prif swyddog cyllid awdurdod, a

(b) sy'n datgan bod cosb benodedig wedi ei dalu neu heb ei dalu erbyn dyddiad a bennir yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

(10) Yn yr adran hon—

ystyr "prif swyddog cyllid", o ran awdurdod, yw'r person sydd â chyfrifoldeb dros faterion ariannol yr awdurdod;

ystyr "swyddog awdurdodedig", o ran awdurdod, yw—

(a) cyflogai i'r awdurdod sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o dan yr adran hon;

(b) unrhyw berson sydd, yn unol â threfniadau a wnaed gyda'r awdurdod, â'r swyddogaeth o roi hysbysiadau o'r fath ac sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod i gyflawni'r swyddogaeth;

(c) unrhyw gyflogai i berson o'r fath sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion rhoi hysbysiadau o'r fath.

### 24 Swm y gosb benodedig

(1) £100 yw swm y gosb benodedig sy'n daladwy o dan adran 23(1).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn osod swm gwahanol yn lle'r swm sydd am y tro wedi ei bennu yn is-adran (1).

### 25 Canlyniadau eraill gweithredu safle rheoleiddiedig heb ei drwyddedu: gorchmynion ad-dalu

(1) At ddibenion yr adran hon, mae safle rheoleiddiedig yn "safle rheoleiddiedig heb ei drwyddedu" os yw'n ofynnol ei drwyddedu o dan y Rhan hon ond ei fod heb ei drwyddedu felly.

(2) Nid yw'r un rheol gyfreithiol sy'n ymwneud â dilysrwydd neu orfodadwyedd contractau o dan amgylchiadau sy'n cynnwys anghyfreithlondeb i effeithio ar ddilysrwydd neu orfodadwyedd y canlynol—

(a) unrhyw ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol talu am lain neu wneud unrhyw daliad cyfnodol arall mewn cysylltiad ag unrhyw gytundeb y mae adran 1 o Ddeddf 1983 yn gymwys iddo sy'n ymwneud â safle rheoleiddiedig heb ei drwyddedu, neu

(b) unrhyw ddarpariaeth arall mewn cytundeb o'r fath.

(3) Ond caniateir i symiau a dalwyd ar gyfer taliadau penodol a wnaed o dan gytundeb o'r fath ac mewn cysylltiad ag ef gael eu hadennill yn unol ag is-adran (4).

(4) Os bydd—

(a) cais ynglŷn â safle rheoleiddiedig yn cael ei wneud i'r tribiwnlys gan feddiannydd cartref symudol a osodwyd ar y safle, a

(b) y tribiwnlys yn fodlon ynglŷn â'r materion a grybwyllir yn is-adran (6),

caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn ("gorchymyn ad-dalu").

(5) Mae gorchymyn ad-dalu yn orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person priodol dalu i'r meddiannydd unrhyw symiau a bennir yn y gorchymyn ar gyfer—

(a) unrhyw daliad a wnaed gan y meddiannydd (neu unrhyw berson y mae'r meddiannydd wedi sicrhau perchnogaeth ar y cartref symudol drwyddo) i berchennog y safle ynglŷn â phrynu cartref symudol a osodwyd ar y safle,

(b) unrhyw gomisiwn a dalwyd i berchennog y safle gan unrhyw berson ynglŷn â gwerthu cartref symudol a osodwyd ar y safle,

(c) y ffi am y llain a dalwyd ynglŷn â chartref symudol o'r fath, a

(d) unrhyw daliadau cyfnodol a dalwyd ynglŷn â chartref symudol o'r fath.

(6) Rhaid i'r tribiwnlys fod wedi ei fodloni ynglŷn â'r materion a ganlyn—

(a) bod y person priodol wedi ei gollfarnu am drosedd o dan adran 22(1) o ran y safle,

(b) bod y meddiannydd (neu, yn achos taliadau y cyfeirir atynt yn is-adran (5)(a) neu (b), y person y mae'r meddiannydd wedi sicrhau perchnogaeth ar y cartref symudol drwyddo) wedi talu, i berson sydd â gofal neu reolaeth dros y safle rheoleiddiedig, y taliad o dan sylw yn ystod unrhyw gyfnod y mae'n ymddangos i'r tribiwnlys bod trosedd o'r fath yn cael ei gyflawni ynddo o ran y safle rheoleiddiedig, ac

(c) bod y cais wedi ei wneud o fewn y cyfnod o 12 mis yn dechrau ar ddyddiad y collfarniad.

**26 Darpariaethau pellach ynghylch gorchmynion ad-dalu**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys o ran gorchmynion ad-dalu a wneir gan dribiwnlysoedd o dan adran 25(5).

(2) Ni chaniateir i orchymyn ad-dalu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw swm gael ei dalu y mae'r tribiwnlys wedi ei fodloni y byddai'n afresymol ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ei dalu oherwydd unrhyw amgylchiadau eithriadol.

(3) Y swm y mae'n ofynnol ei dalu yn rhinwedd gorchymyn ad-dalu o dan adran 25(5) yw'r swm sydd (yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) i (6)) ym marn y tribiwnlys yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

(4) Mewn achos o'r fath, rhaid i'r tribiwnlys, yn benodol, gymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth—

(a) cyfanswm y taliadau perthnasol a dalwyd mewn cysylltiad â meddiannu'r safle rheoleiddiedig yn ystod unrhyw gyfnod y mae'n ymddangos i'r tribiwnlys fod trosedd yn cael ei chyflawni ynddo gan y person priodol ynglŷn â'r safle rheoleiddiedig o dan adran 22(1),

(b) i ba raddau y cafodd y person priodol y cyfanswm hwnnw mewn gwirionedd,

(c) a yw'r person priodol ar unrhyw adeg wedi ei gollfarnu am drosedd o dan adran 22(1) o ran y safle rheoleiddiedig,

(d) ymddygiad ac amgylchiadau ariannol y person priodol, ac

(e) pan fo'r cais wedi ei wneud gan feddiannydd, ymddygiad y meddiannydd.

(5) Yn is-adran (6) ystyr "taliadau perthnasol" yw'r taliadau hynny y cyfeirir atynt yn adran 25(5).

(6) Pan fo'r cais wedi ei wneud gan feddiannydd, ni chaniateir i orchymyn ad-dalu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw swm gael ei dalu sy'n swm ar gyfer unrhyw amser y tu allan i'r cyfnod o 12 mis yn diweddu ar ddyddiad cais y meddiannydd, a chyfyngir y cyfnod sydd i'w gymryd i ystyriaeth o dan is-adran (4)(a) yn unol â hyn.

(7) Mae unrhyw swm sy'n daladwy i feddiannydd yn rhinwedd gorchymyn ad-dalu yn adenilladwy gan y meddiannydd fel dyled sy'n ddyledus i'r meddiannydd gan y person priodol.

## RHAN 3

## DIWYGIO DEDDF 1983

### 27 Diwygio Deddf 1983

Diwygir Deddf 1983 yn unol â'r Atodlen.

## RHAN 4

## RHEOLI SAFLEOEDD RHEOLEIDDIEDIG

### 28 Cymeradwyo codau ymarfer o ran rheoli safleoedd rheoleiddiedig

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn—

(a) cymeradwyo cod ymarfer (boed wedi ei baratoi ganddynt hwy ynteu gan berson arall) yn nodi safonau ymddygiad ac ymarfer i'w dilyn o ran rheoli safleoedd rheoleiddiedig,

(b) cymeradwyo addasiad i god o'r fath, neu

(c) tynnu cymeradwyaeth cod neu addasiad o'r fath yn ôl.

(2) Cyn cymeradwyo cod ymarfer neu addasiad i god ymarfer o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau rhesymol i ymgynghori—

(a) â phersonau sy'n ymwneud â rheoli safleoedd rheoleiddiedig a meddianwyr cartrefi symudol a osodwyd ar safleoedd o'r fath, neu

(b) â phersonau y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn cynrychioli buddiannau'r personau hynny.

(3) Dim ond os ydynt wedi eu bodloni ynglŷn â'r canlynol y caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cod ymarfer neu addasiad i god ymarfer—

(a) bod y cod neu'r addasiad wedi ei gyhoeddi (boed ganddynt hwy ynteu gan berson arall) mewn modd sydd yn eu barn hwy yn briodol er mwyn dod â'r cod neu'r addasiad i sylw'r rhai y mae'n debyg o effeithio arnynt; neu

(b) bod trefniadau wedi eu gwneud i'r cod neu'r addasiad gael ei gyhoeddi felly.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cod ymarfer sy'n gwneud darpariaeth wahanol o ran achosion gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o achosion (gan gynnwys darpariaethau gwahanol i ardaloedd gwahanol).

(5) Nid yw methu cydymffurfio â chod ymarfer sydd am y tro wedi ei gymeradwyo o dan yr adran hon ynddo'i hun yn peri bod person yn agored i unrhyw achos sifil neu droseddol.

**29 Rheoliadau rheoli safleoedd rheoleiddiedig**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth er mwyn sicrhau, o ran pob safle rheoleiddiedig o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau—

(a) bod trefniadau rheoli boddhaol wedi eu sefydlu; a

(b) bod safonau rheoli boddhaol yn cael eu cadw.

(2) Yn benodol, rhaid i'r rheoliadau—

(a) gosod dyletswyddau ar y person sy'n rheoli safle rheoleiddiedig o ran trwsio, cynnal, glendid a threfn y safle a'r cyfleusterau a'r offer arno (heblaw cartrefi symudol unigol neu unrhyw ran o'r safle y mae meddianwyr cartrefi symudol yn gyfrifol am eu trwsio, eu cynnal, eu glendid a'u trefn o dan delerau'r cytundebau y mae'r cartrefi symudol hynny wedi eu gosod ar y safle o danynt);

(b) gosod dyletswyddau ar feddianwyr cartrefi symudol ar safle rheoleiddiedig er mwyn sicrhau bod y person sy'n rheoli'r safle yn gallu cyflawni unrhyw ddyletswydd a osodir ar y person hwnnw gan y rheoliadau mewn modd effeithiol.

(3) Mae person sy'n methu cydymffurfio â rheoliad o dan yr adran hon yn cyflawni trosedd.

(4) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan is-adran (3) mae'n amddiffyniad bod gan y person o dan sylw esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio â'r rheoliad.

(5) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (3) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**30 Cymdeithasau trigolion cymwys**

(1) Pan gyflwynir rhestr o aelodau cymdeithas drigolion i awdurdod trwyddedu safleoedd er mwyn bodloni'r amod a gynhwysir ym mharagraff 28(ea) o Ran 1, Pennod 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 rhaid i'r awdurdod—

(a) cymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun fod o leiaf 50 y cant o feddianwyr y cartrefi symudol ar y safle yn aelodau o'r gymdeithas, a

(b) rhoi hysbysiad ysgrifenedig—

(i) i'r gymdeithas, a

(ii) i ddeiliad y drwydded,

a yw wedi ei fodloni neu beidio.

(2) Rhaid i gymdeithas drigolion sydd wedi cael hysbysiad o dan is-adran (1)(b)(i) fod yr awdurdod wedi ei fodloni fel hyn, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl unrhyw newidiadau yn ei haelodaeth, gyflwyno rhestr gyfoes o aelodau i'r awdurdod trwyddedu.

(3) Os yw'n ymddangos i'r awdurdod, ar unrhyw adeg, nad yw'r aelodau o gymdeithas drigolion y mae is-adran (2) yn gymwys iddi, yn 50 y cant o leiaf o feddianwyr y cartrefi symudol ar y safle mwyach, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'r ffaith honno ar unwaith—

(a) i'r gymdeithas, a

(b) i ddeiliad y drwydded.

(4) At ddibenion adran 41(1) (ond nid adran 41(2)) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36) mae datgelu rhestr o aelodau cymdeithas drigolion gan awdurdod, sef rhestr a gyflwynwyd i'r awdurdod hwnnw er mwyn bodloni'r amod a gynhwysir ym mharagraff 28(ea) o Ran I, Pennod 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (gan gynnwys unrhyw restr gyfoes a gyflwynwyd yn unol ag is-adran (2)) i'w drin fel pe bai'n torri cyfrinach y caiff y person a'i cyflwynodd ddwyn achos yn ei erbyn.

## RHAN 5

## AMRYWIOL

### 31 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthiadau gwahanol o achos, ardaloedd gwahanol neu ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu yn ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu dim ond o ran achosion penodol neu ddosbarthiadau penodol o achos;

(c) i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed a wêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud unrhyw ddarpariaeth y maent o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion cyffredinol y Ddeddf hon, neu at unrhyw ddibenion penodol ynddi, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaethau a wneir gan y Ddeddf hon neu er mwyn rhoi eu heffaith lawn iddynt.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3) ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw rai o ddarpariaethau—

(a) unrhyw Ddeddf Seneddol neu Ddeddf neu Fesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys y Ddeddf hon), a

(b) is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p.30)).

(5) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon, heblaw—

(a) gorchymyn o dan adran 24(2) neu adran 33(2), neu

(b) gorchymyn o dan is-adran (4) o'r adran hon sy'n cynnwys darpariaeth o dan is-adran (4)(a),

yn gallu cael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Ni chaniateir i unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn—

(a) o dan adran 24(2), neu

(b) o dan is-adran (4) o'r adran hon, sy'n cynnwys darpariaeth o dan is-adran (4)(a),

gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**32 Dehongli**

Yn y Ddeddf Hon, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "awdurdod trwyddedu safleoedd" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

mae i "ffi am y llain" yr un ystyr ag sydd i "pitch fee" yn Rhan 1, Pennod 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983;

mae i "perchennog" a "meddiannydd", o ran safleoedd rheoleiddiedig, yr un ystyr ag sydd i "owner" ac "occupier" yn Neddf 1983 o ran safleoedd gwarchodedig;

mae "person" yn cynnwys, yn achos corff corfforaethol, unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforaethol, ac unrhyw berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath;

ystyr "y tribiwnlys" yw Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru neu, pan fo'r partïon wedi cytuno mewn ysgrifen i gyflwyno unrhyw gwestiwn sy'n codi o dan y Ddeddf hon neu, yn ôl fel y digwydd, unrhyw gytundeb y mae'n gymwys iddo ar gyfer cyflafareddu, y cyflafareddwr.

**33 Enw byr, diddymu a chychwyn**

(1) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

(2) Daw darpariaethau'r Ddeddf hon i rym yn unol â gorchymyn neu orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

## ATODLEN 1
*(a gyflwynir gan adran 27)*

## DIWYGIO DEDDF CARTREFI SYMUDOL 1983

1 Diwygir adran 3 o Ddeddf 1983 (olynwyr mewn teitl) fel a ganlyn.

2 Ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) In the case of a mobile home stationed on a protected site in Wales, subsection (3) applies with the following modifications—

(a) the words "at a time when he is occupying the mobile home as his only or main residence" are omitted, and

(b) the words "with that person ("the deceased")" are omitted and the words "in the mobile home as that person's only or main residence" are substituted."

3 Diwygir Rhan 1, Pennod 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 fel a ganlyn.

4 (1) Cyn is-baragraff (1) o baragraff 8 mewnosoder—

"(A1) This paragraph applies in relation to a protected site in England."

(2) Ar ôl paragraff 8 mewnosoder—

"8A (1) This paragraph applies in relation to a protected site in Wales.

(2) The occupier shall, subject to sub-paragraph (3)(b), be entitled to sell the mobile home, and to assign the agreement.

(3) Where the occupier sells the mobile home, and assigns the agreement, as mentioned in sub-paragraph (2)—

(a) the owner shall be entitled to receive a commission on the sale at a rate not exceeding such rate as may be specified by an order made by the Welsh Ministers, and

(b) neither the sale nor the assignment are to have any effect until the owner has received the commission referred to in sub-paragraph (3).

(4) Except to the extent mentioned in sub-paragraph (3), the owner may not require any payment to be made (whether to the owner or otherwise) in connection with the sale of the mobile home, and the assignment of the agreement, as mentioned in sub-paragraph (2) above.

(5) An order under this paragraph—

(a) shall be made by statutory instrument,

(b) shall be subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales, and

(c) may make different provision for different areas or for sales at different prices."

5 (1) Ar ddechrau paragraff 10(1)(b) mewnosoder—

"in the case of a protected site in England".

(2) Ar ddiwedd paragraff 10(1)(b) mewnosoder—

", or

(c) in the case of a protected site in Wales, the owner needs to carry out essential repair works that can only be carried out if the mobile home is moved to the other pitch for that period, and

(i) the appropiate judicial body is, on the application of the owner, satisfied of that need and that the other pitch is broadly comparable to the orginal pitch, or

(ii) the urgency of the need means that it is impracticable to make an application before the mobile home is re-sited,

provided that where (ii) applies the owner must immediately make an application to the appropriate judicial body for a decision as to whether that body is satisfied of the need and that the other pitch is broadly comparable to the original pitch and, if that body is not so satisfied the owner must immediately secure that the mobile home is returned to the original pitch."

6 (1) Ar ddechrau paragraff 18(1)(c) mewnosoder—

"subject to paragraph 19(3),"

(2) Ar ôl paragraff 19(2) mewnosoder—

"(3) In the case of a protected site in Wales, when determining the amount of the new pitch fee, no regard may be had to any costs incurred by the owner in relation to—

(a) compliance with any duty imposed on the owner by or under Part 2 of the Regulated Mobile Home Sites (Wales) Act 2013 (licensing of regulated sites), or

(b) the conduct of any proceedings under that Act."

7 (1) Ar ddechrau paragraff 20(1) mewnosoder—

"In the case of a protected site in England,".

(2) Ar ôl paragraff 20(1) mewnosoder—

"(1A) In the case of a protected site in Wales, there is a presumption that the pitch fee shall increase or decrease by a percentage which is no more than any percentage increase or decrease in the consumer prices index since the last review date, unless this would be unreasonable having regard to paragraph 18(1) above."

8 (1) Ar ddechrau paragraff 23 mewnosoder—

"In the case of a mobile home stationed on a protected site in England,"

(2) Ar ôl paragraff 23 mewnosoder—

"23A(1) In the case of a mobile home stationed on a protected site in Wales, the owner shall not do or cause to be done anything—

(a) which may adversely affect the ability of the occupier to perform the obligation under paragraph 21(c) above or which may deter the occupier from making internal improvements to the mobile home or interfere with the occupier's ability to do so, or

(b) which may adversely affect the ability of the occupier to perform the obligation under paragraph 21(d) above or which may deter the occupier from making external improvements to the mobile home or interfere with the occupier's ability to do so.

(2) Sub-paragraph (1) does not authorise an occupier to carry out works to the mobile home which are prohibited by the terms of the agreement or by or under any enactment. Where the terms of the agreement permit works to the mobile home to be carried out only with the permission of the owner, that permission may not be withheld unreasonably."

9 Ym mharagraff 28, mewnosoder—

(a) ar ddechrau paragraff (1)(e)—

"In the case of a protected site in England,"

(b) ar ôl paragraff (1)(e)—

"(ea) In the case of a protected site in Wales, its rules and constitution are open to public inspection and it maintains a list of members, an up to date copy of which has been lodged with the authority which is the licensing authority for the purpose of Part 2 of the Mobile Home Regulated Sites (Wales) Act 2013."

10 Ar ôl "Chapter"ym mharagraff 29 mewnosoder—

""consumer prices index" means the general index of consumer prices (for all items) published by the Statistics Board or, if that index is not published for a relevant month, any substituted index or index figures published by the Board;"